Cyllid & Thollau EM

P9D TALIADAU TREULIAU AC INCWM NA ELLIR TYNNU TRETH OHONYNT 2009-10

Gwnewch yn siŵr bod y manylion yn glir ar y naill ochr a'r llall o'r ffurflen

Enw'r cyflogwr

Cyfeirnod TWE y cyflogwr

Enw'r cyflogai

Cyfenw

Enw(au) cyntaf

Rhif gwaith/adran

Rhif Yswiriant Gwladol

Dyddiad geni *mewn ffigurau (os yn hysbys)*

D D M M B B B B

Rhyw **G – Gwryw B – Benyw**

Nodyn i'r cyflogwr

Llenwch y ffurflen hon os gwnaethoch daliadau treuliau neu ddarparu buddiannau i gyflogai ond nad ydych wedi llenwi ffurflen P11D, gan iddo/iddi ennill ar gyfradd o lai na £8,500 y flwyddyn yn ystod y flwyddyn hyd at 5 Ebrill 2010.

Nid oes raid i chi gynnwys yr wybodaeth a ddangosir ar y ffurflen hon mewn unrhyw ddatganiad ar ffurflen P11D(b). Ar ôl llenwi'r ffurflen dylech ei hanfon i'ch swyddfa Cyllid a Thollau EM (CThEM) erbyn 6 Gorffennaf 2010.

Nodyn i'r cyflogai

Mae'ch cyflogwr wedi llenwi'r ffurflen hon a dylech ei chadw'n ddiogel. Byddwch ei hangen pan yn llenwi eich Ffurflen Dreth 2009-10 os cewch un.

Ar y ffurflen P9D hon mae gan y blychau yr un rhifau ag sydd ar Dudalen Cyflogaeth y Ffurflen Dreth. Dylech gynnwys cyfanswm y ffigurau yn y blwch cyfatebol ar y Ffurflen Dreth.

A(1) Taliadau treuliau

Os talodd y cyflogai dreuliau yn llwyr ac o raid wrth gyflawni ei ddyletswyddau gwaith a/neu dreuliau teithio ar fusnes a'ch bod chithau wedi talu swm y costau hynny'n ôl, nid oes angen i chi eu cynnwys yma. Nodwch gyfanswm yr holl daliadau treuliau eraill gan gynnwys:

- taliadau oedd yn cynnwys Treth ar Werth (TAW), hyd yn oed os cafodd y TAW ei hawlio'n ôl yn ddiweddarach oddi wrth CThEM
- lwfansau symiau crwn
- yr holl daliadau treuliau a buddiannau adleoli (gweler nodiadau isod).

Mae rhai costau adleoli yn gymwys ar gyfer rhyddhad *(gweler Llyfryn 480)*. Yr uchafswm y gellir ei dalu am un symudiad yw £8,000. Dylech adio at ei gilydd gyfanswm pob taliad cymwys a wnaed am bob symudiad gan gynnwys

- unrhyw daliadau a wnaethpwyd yn 2008-09 **ac**
- unrhyw fuddiannau a ddarparwyd o fewn y pecyn adleoli yn 2009-10 neu 2008-09.

Dylai'r hyn sydd dros £8,000 mewn unrhyw daliadau treuliau a buddiannau cymwys am bob symudiad gael ei gynnwys yn ffigur cyfanswm y taliadau treuliau sy'n cael ei gofnodi isod.

Os yw cyfanswm yr uchod yn £25 neu lai nid oes angen ei gofnodi.

Os yw'n fwy na £25, nodwch y cyfanswm	16	£

A(2) Unrhyw daliadau neu fuddiannau eraill

Yma, dylech gynnwys:

- taliadau a wnaethpwyd i'r cyflogai ond sydd heb eu cynnwys ar Ddatganiad Blynyddol y Cyflogwr am 2009-10
- taliadau a wnaethpwyd ar ran y cyflogai
- rhoddion ar ffurf nwyddau - nodwch werth ail-law unrhyw nwyddau a ddarparwyd. Hynny yw, y pris y gallai'r cyflogai ei gael am yr eitemau petai'n eu gwerthu yn union ar ôl eu derbyn
- unrhyw daliadau neu fuddiannau eraill y gellid eu troi'n arian ac sydd heb eu cynnwys yn unman arall.

Cyfraniadau Yswiriant Gwladol personol y cyflogai, a dalwyd gennych chi	15	£
Biliau ffôn personol y cyflogai, a dalwyd gennych chi	15	£
Rhoddion ar ffurf nwyddau	15	£
Unrhyw beth a brynwyd ar ran y cyflogai, neu a dalwyd iddo ef/hi am bris heblaw gwerth y farchnad	15	£
Unrhyw daliadau neu fuddiannau sydd heb eu cynnwys yn unman arall, cofnodwch y gwerth yma a rhowch fanylion yn y blwch ar y dudalen nesaf	15	£

B Talebau a chardiau credyd

Nodwch y gost o ddarparu'r talebau, a'r nwyddau a'r gwasanaethau y gellir eu cyfnewid amdanynt.
(Ar gyfer talebau gofal plant, yr hyn sydd dros £55 yr wythnos.)

Peidiwch â chynnwys gwerth unrhyw dalebau, megis talebau arian parod, sydd eisoes wedi eu trethu o dan TWE.

Talebau teithio a chludiant, gan gynnwys tocynnau tymor	12	£
Tocynnau anrhegion, gan gynnwys Tystysgrifau Cynilion Cenedlaethol a Bondiau Premiwm	12	£
Talebau prydau bwyd – *fel y gofynnir yn Llyfryn CWG 2 'Employer's Further Guide to PAYE and NICs'*	12	£
Unrhyw dalebau eraill y gellir eu cyfnewid am nwyddau a gwasanaethau	12	£
Cardiau Credyd a ddarparwyd i'r cyflogai a'i d(th)eulu – *rhowch gyfanswm y treuliau y talwyd amdanynt â cherdyn credyd a ddarparwyd gennych chi at ddefnydd eich cyflogai, oni bai eich bod eisoes wedi rhoi'r treuliau hyn o dan un o'r penawdau uchod.*	12	£

C Lle i fyw

Rhowch y swm sy'n gyfwerth mewn arian i werth y lle i fyw a ddarparwyd ar gyfer y cyflogai a/neu ei d(th)eulu. Tynnwch unrhyw symiau a dalwyd gan y cyflogai ei hun tuag at gost darparu'r lle i fyw – er enghraifft, rhent.

Os yw'r cyflogai yn cael lle i fyw wedi'i ddarparu iddo/iddi, rhowch fanylion y gwerth trethiannol. Dyma'r gwerth gros cyn i'r Dreth Gymunedol ddod i rym. Os nad oes gan yr eiddo werth gros, rhowch 'Gwerth trethiannol heb ei bennu' gan roi eich amcan o beth fyddai'r gwerth gros pe bai trethi eiddo wedi parhau. Os yw'r eiddo wedi ei rentu, ychwanegwch unrhyw swm a briodolwyd i'r cyfnod mewn perthynas â phremiwm prydles, at swm y rhent ac yswiriant sy'n daladwy gennych. Gweler *Llyfryn 480* ar gyfer sut i gyfrifo'r swm hwn. Os yw costau'r eiddo, gan gynnwys gwelliannau, yn fwy na £75,000 bydd rhaid i chi gyfrifo'r rhent blynyddol ychwanegol, gweler *Llyfryn 480* i gael y cyfwerth mewn arian ym mlwch 14 isod.

Os, yn ogystal â darparu lle i fyw, roeddech wedi talu rhai o filiau'r cyflogai (fel gwres a golau), dangoswch y rhain yn y blwch neu flychau priodol ar y dudalen drosodd, pa un a yw gwerth y lle i fyw wedi'i eithrio rhag treth ai peidio.

Nodwch gyfeiriad yr eiddo

Cod Post

Nodwch werth trethiannol yr eiddo	£
Nodwch y rhent ac yswiriant a dalwyd gennych chi (gan gynnwys unrhyw swm a briodolwyd mewn perthynas â phremiwm prydles)	£

Nodwch cyfwerth mewn arian y lle i fyw a ddarparwyd i'r cyflogai. Bydd hyn:

- y mwyaf o'r ddau ffigur a nodwyd uchod, neu
- os oes rhent blynyddol ychwanegol, **rhaid** i chi nodi y cyfwerth mewn arian rydych wedi'i gyfrifo **yn lle hynny.**

14 £

Os oes angen defnyddiwch y blwch hwn i ddisgrifio'r buddiannau y sonnir amdanynt uchod ac ar y dudalen drosodd